Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontyberem
Heol Y Felin
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5EB

04/08/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Pontyberem yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol ac un flaenoriaeth o gynllun gwella'r ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu medrau deall a dadansoddi data disgyblion, yn fathemategol a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn effeithiol

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ac mae strategaeth gadarn yn ei lle ar gyfer ymateb i'r argymhelliad.
- Mae arweinwyr pwnc wedi adnabod yr angen i gryfhau ansawdd addysgu mathemateg. Maent yn darparu profiadau dysgu proffesiynol pwrpasol ac, o ganlyniad, mae athrawon yn mabwysiadu dull mwy cyson o addysgu sy'n rhoi pwyslais cryfach ar resymu, datrys problemau a dadansoddi data. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth wedi gwella dros amser sy'n cefnogi datblygiad medrau mathemategol a digidol y disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae llawer o ddisgyblion wedi gwella eu medrau trin data ac maent yn eu cymhwyso mewn tasgau pwrpasol yn briodol. Maent yn defnyddio technoleg ddigidol yn fwy hyderus i ddehongli gwybodaeth a llunio casgliadau.
- Mae arweinwyr wedi datblygu canllaw pwrpasol, gan gynnwys map cynnydd a chontinwwm data digidol, i gefnogi athrawon i gynllunio dilyniant clir yn



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

natblygiad medrau'r disgyblion. Mae hyn yn cryfhau cysondeb y ddarpariaeth ac yn ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau dadansoddi data mewn ystod eang o gyd-destunau pwrpasol ar draws y cwricwlwm.

## Sicrhau bod gweithdrefnau hybu medrau a mwynhad disgyblion wrth ddarllen yn eang ac yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol

- Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant darllen cadarn ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddarllen ystod eang o lyfrau ysgogol a difyr sy'n tanio eu dychymyg ac yn meithrin cariad cryf at ddarllen.
- Mae arweinwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro pwrpasol i adnabod cryfderau'r ysgol, ynghyd â'r agweddau i'w datblygu ymhellach. Mae'r staff yn elwa o weithgareddau dysgu proffesiynol bwriadus sy'n datblygu gallu'r athrawon i ddefnyddio dulliau addysgu effeithiol sy'n cryfhau medrau darllen y disgyblion.
- Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau difyr sy'n cysylltu'n bwrpasol â llyfrau. Er enghraifft, maent yn adalw prif ddigwyddiadau straeon yn fedrus ac yn defnyddio'r wybodaeth i lunio broliannau a disgrifiadau creadigol o'u hoff gymeriadau.
- Yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae'r athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu i ddatblygu uwch fedrau darllen disgyblion. Maent yn modelu darllen yn effeithiol ac yn annog y disgyblion i ddarllen ar goedd gan ddefnyddio tôn, mynegiant a goslef briodol i ennyn diddordeb y gynulleidfa. Drwy ddarllen llyfrau adnabyddus yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o themâu a materion pwysig sy'n berthnasol iddynt.
- Mae'r staff yn cydweithio'n hynod effeithiol i gynllunio cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau darllen lleol a chenedlaethol sy'n datblygu eu hyder, eu medrau cyfathrebu a'u mwynhad o ddarllen yn llwyddiannus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692373](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692373)

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol